Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

## Ysbyty Treffynnon:(Ward Ffynnon A)

## Ysbyty Glannau Dyfrdwy:(Wardiau Branwen a Gladstone)

Dyddiad Arolygu: 15, 16, 17 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol978-1-4734-8803-8


© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................................................................... 2

2. Cyd-destun ........................................................................................... 3

3. Crynodeb ........................................................................................... 5

4. Canfyddiadau ........................................................................................... 7

Ansawdd profiad y claf ........................................................................... 7

Roedd y bwrdd iechyd wedi gwneud trefniadau i ymdrin â phryderon (cwynion) a fynegwyd gan gleifion a/neu eu cynrychiolwyr. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â Gweithio i Wella a dangosodd uwch staff y ward ddealltwriaeth dda o'r broses gywir i'w dilyn. Fodd bynnag, nid oedd y taflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn Ysbyty Treffynnon. ........................................................... 11

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................................... 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........................................................... 22

5. Y Camau Nesaf ........................................................................................... 26

Atodiad A ........................................................................................... 29

Atodiad B ........................................................................................... 35

Atodiad C ........................................................................................... 40

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o ddau ysbyty cymunedol gofal i'r henoed o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15, 16 ac 17 Tachwedd 2016.Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Cymuned Treffynnon

- Ward Ffynnon A

Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy

- Wardiau Branwen a Gladstone.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau ysbytai'r GIG yn Adran 6.

## 2. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu gwasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac aciwt i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe sir gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).Mae gan y bwrdd iechyd weithlu o tua 16,500.

Mae tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, ac Ysbyty Maelor Wrecsam), yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 109 o bractisau ymarferwyr cyffredinol a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

**<u>Ysbyty Cymuned Treffynnon</u>**

Agorwyd Ysbyty Treffynnon yn 2008 a chafodd ei adeiladu i gymryd lle gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan yr hen Ysbyty Bwthyn Treffynnon, Ysbyty Lluesty, Clinigau Treffynnon a meddygfa. O ganlyniad, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn amgylchedd a adeiladwyd i'r pwrpas erbyn hyn sy'n agos at y gymuned y maent yn ei gwasanaethu.

Mae gan yr ysbyty 44 o welyau i gleifion mewnol ac mae'r ysbyty'n arbenigo mewn adsefydlu, gofal i'r henoed, gofal lliniarol a gofal terfynol. Mae uned mân anafiadau ar gael hefyd ac mae ar agor rhwng 8am ac 8pm am saith diwrnod yr wythnos. Mae gwelyau dan arweiniad ymgynghorwyr a gwelyau ymarferwyr cyffredinol. Cynhelir clinigau ymgynghorwyr i gleifion allanol a chlinigau cymunedol yn yr ysbyty, a darperir gwasanaethau deintyddol a phelydr-X hefyd. Mae'r ysbyty'n darparu ystod o wasanaethau therapiwtig a chymunedol eraill.

- Cafodd ward Ffynnon A ei harchwilio ar 15 Tachwedd 2016.Mae 22 gwely yn y ward ac mae'n arbenigo mewn gofal i'r henoed.

**<u>Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy</u>**

Mae Ysbyty Cymuned Glannau Dyfrdwy'n adeilad modern un llawr yn ardal breswyl Aston, Glannau Dyfrdwy, sydd ar y ffin rhwng Sir y Fflint a Chaer. Agorwyd yr ysbyty ym 1992 yn lle Ysbyty Mancot. Rhoddwyd estyniad mawr yn 2004, a oedd yn darparu arbenigaeth mewn adsefydlu pobl hŷn. Gwnaeth hyn gymryd lle'r gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol yn ysbytai Dobshill, Meadowslea a Threfalun, a gafodd eu cau yn 2004. Mae'r ysbyty'n cynnwys dwy ward, Ward Gladstone a Ward Branwen.

- Arolygwyd ward Gladstone ar 16 ac 17 Tachwedd 2016.Mae 22 gwely yn y ward ac mae'n arbenigo mewn gofal i'r henoed.
- Arolygwyd ward Branwen ar 16 ac 17 Tachwedd 2016.Mae'r ward yn arbenigo mewn adsefydlu ac ail-alluogi cleifion oedrannus.

## 3. Crynodeb

Roedd y sylwadau a wnaed gan gleifion yn y ddau ysbyty'n cadarnhau eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir gan y timau staff. Gwelsom y staff yn bod yn gwrtais gyda chleifion ac yn eu trin gyda pharch a thrugaredd. Yng Nglannau Dyfrdwy, gwelsom fod gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i gleifion a/neu eu gofalwyr ddarparu adborth ynglŷn â'u profiadau a mynegi pryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth cleifion, ond nid oedd hyn yn amlwg yn Nhreffynnon.

Gwelsom fod pob tîm ward yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai problemau amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt er diogelwch.

Er bod offer arbenigol ar gael ac yn cael eu defnyddio i helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a chwympo, gwelsom nad oedd rhai o dystysgrifau cynnal a chadw'r offer codi yn gyfredol. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu cywiro yn y ddau ysbyty cyn diwedd yr arolygiad. Yn ogystal, ychydig o le storio oedd ar gael yn Ward Branwen yng Nglannau Dyfrdwy ac roedd hyn yn peri problemau.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau'n ymwneud ag agweddau ar reoli meddyginiaethau. Gwelsom hefyd fod angen gwneud gwelliannau yn Nhreffynnon ac yng Nglannau Dyfrdwy yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Gwnaethom hysbysu'r staff o'n canfyddiadau a chynhaliwyd asesiadau perthnasol yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy cyn bod AGIC wedi cwblhau'r arolygiad. **Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gwella yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC ar gyfer Treffynnon ac ar draws y bwrdd iechyd. Derbyniodd AGIC ymateb gan y bwrdd iechyd a oedd yn rhoi digon o sicrwydd bod camau wedi eu cymryd i hybu diogelwch, urddas a hawliau dynol i gleifion.**

Gwelsom fod anghenion gofal cleifion wedi cael eu hasesu gan staff a bod staff yn monitro cleifion er mwyn hybu eu lles a'u diogelwch. Er bod y staff yn disgrifio gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf a gofal unigoledig, nid oedd y cofnodion gofal a welsom yn adlewyrchu hyn yn llwyr.

Yn gyffredinol, gwelsom fod strwythurau rheoli a llinellau dirprwyo ac adrodd wedi'u sefydlu yn y ddau ysbyty. Fodd bynnag, roedd arddulliau rheoli tra gwahanol yn y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddwy ward, gwnaethom ofyn i'r uwch reolwyr gefnogi timau'r wardiau i sicrhau bod amgylchedd gwaith/rheoli addas yn cael ei gynnal ar y ddwy ward.

Yn gyffredinol, gwelsom dimau staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd staff ar Ward Branwen yn llai ymgysylltiol â'r broses arolygu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn effeithio ar ansawdd y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Roedd staff yn gallu

disgrifio eu swyddogaethau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael hyfforddiant a bod hyn wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn effeithiol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Roedd y sylwadau a wnaed gan gleifion yn ysbytai Treffynnon a Glannau Dyfrdwy'n cadarnhau eu bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir gan y timau staff. Gwelsom y staff yn bod yn gwrtais gyda chleifion ac yn eu trin gyda pharch a thrugaredd. Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i gleifion a/neu eu gofalwyr ddarparu adborth ynglŷn â'u profiadau a mynegi pryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth cleifion. Roedd hyn yn amlwg yng Nglannau Dyfrdwy ond nid yn Nhreffynnon.**

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom wahodd cleifion a/neu eu cynrychiolwyr yn y ddau ysbyty yr ymwelwyd â nhw i roi sylwadau ynglŷn â staff yr ysbyty, yr amgylchedd clinigol a'r gofal a dderbyniwyd, trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb gyda'r tîm arolygu a/neu trwy gwblhau holiadur AGIC. Gwnaethom dderbyn 24 o ymatebion ysgrifenedig - naw o Ffynnon A (Treffynnon), wyth o Branwen, a saith o Gladstone (y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy).

Pan ofynnwyd iddynt raddio'r gofal a'r driniaeth a gawsant, rhoddodd cleifion sgôr o rhwng chwech a deg allan o ddeg.

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

| |
|---|
| *Safon 4.1 – Gofal gydag urddas*<br><br>*Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle caiff pawb eu trin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd, ac mewn modd sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigol.* |

Canfuom fod y timau staff yn trin cleifion ag urddas, parch a thrugaredd.

Roedd y sylwadau y gwnaethom eu derbyn gan gleifion yn dangos bod y staff wedi bod yn gwrtais tuag atynt a'u teuluoedd/ffrindiau ar y cyfan. Roedd y sylwadau hefyd yn dangos bod y staff yn galw'r cleifion yn ôl eu henw dewisol.

Ymysg y sylwadau a dderbyniwyd gennym roedd:

> *'Staff gwych. Maen nhw'n gwneud beth bynnag y gofynnir iddynt ei wneud.'*
>
> *'Awyrgylch hyfryd, un teulu mawr.'*
>
> *'Da iawn. Effeithlon iawn. Staff rhyfeddol.'*

*'Staff ardderchog, dydw i erioed wedi bod mewn lle cystal â hyn. Awyrgylch gwych, glân. Penigamp.'*

Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau negyddol y mae angen i'r bwrdd iechyd roi sylw iddynt, megis:

**Treffynnon:**

'Bwyd di-flas ac anneniadol. Mwy o weithgareddau ysgogol/adloniant.'

*'Doedd dim modd defnyddio'r bowlen olchi am nad oedd plwg.'*

*'Gwnaeth fy mherthnasau drefnu gyda thair nyrs i mi gael gweld y meddyg cyn iddo orffen ei rownd, ond methodd y nyrsys basio'r neges ymlaen a gadawodd heb fy ngweld – roedd fy mherthnasau'n aros gyda mi hefyd.'*

***Branwen:***

*'Dim digon cynnes.'*

*'Dim gweithgareddau ysgogol. Dim teledu na gweithgareddau.'*

**Gladstone:**

*'Bwyd oer.'*

*'Mae'r staff wrth gefn yn gallu bod yn llai cwrtais a gwybodus, yn enwedig yn ystod y nos.'*

'Byddai'n dda gen i pe byddent yn newid y fwydlen. Mae prinder staff yn effeithio ar sylwgarwch.'

*'Nid yw'r ymgynghorydd yn cyflwyno ei hun.'*

Bydd y rhain yn derbyn sylw mwy manwl yn adrannau priodol yr adroddiad.

Gwnaethom arsylwi hefyd ar dimau o staff yn bod yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion a'u hymwelwyr. Gwelsom staff yn gwneud ymdrechion i amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd sylwadau gan gleifion fod aelodau staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal. Dywedodd cleifion wrthym hefyd fod staff yn eu helpu mewn ffordd fel nad oeddent yn teimlo cywilydd wrth ddefnyddio'r cyfleusterau toiled.

Roedd yn ymddangos bod y cleifion ar y ddwy ward yn derbyn gofal da a'u bod yn gyfforddus. Roedd y sylwadau gan gleifion yn cadarnhau hyn hefyd.

Pan ofynnwyd am lendid a thaclusrwydd y wardiau, dywedodd yr holl gleifion a ddarparodd sylwadau inni wrthym eu bod yn teimlo bod y wardiau'n lân ac yn daclus. Gwelsom ni fod y wardiau i gyd yn lân hefyd a bod ymdrechion wedi'u gwneud i gadw'r ardaloedd hyn yn daclus. Roedd yn amlwg mai ychydig o le storio oedd ar gael yn Ward Branwen oherwydd gwelsom offer a throlïau mewn coridorau, a allai rwystro symudedd cleifion o amgylch y wardiau.

*Safon 4.2 – Gwybodaeth i gleifion*

*Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal sy'n hygyrch, yn ddealladwy, ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion er mwyn eu galluogi a'u cynorthwyo i wneud penderfyniad gwybodus am y gofal fel partner cyfartal.*

Roedd sylwadau cleifion yn y ddau ysbyty yn dangos bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. O'r rhai hynny a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau, nododd y rhan fwyaf eu bod wedi cael cynnig cyfathrebu â'r staff yn eu hiaith ddewisol.

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac ar gael yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy. Fodd bynnag, ni welwyd hyn yn Nhreffynnon, lle'r oedd diffyg gwybodaeth am sut i wneud cwyn, cyfeiriadau cyswllt ar gyfer AGIC, a'r cyngor iechyd cymuned (CIC).

Gwelsom fod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag edrych arnynt. Roedd *Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion* wedi'i arddangos yn y tair ward. Roedd hwn yn cofnodi gwybodaeth am anghenion gofal cleifion trwy ddefnyddio cymysgedd o symbolau a thalfyriadau. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i ddiogelu manylion adnabod cleifion, roedd y byrddau hyn wedi'u lleoli mewn mannau lle gallai cleifion ac ymwelwyr eu gweld. Felly, dylai'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o warchod gwybodaeth am gleifion ymhellach.

## **Gofal unigol**

*Safon 6.1 – Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth*

*Rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.*

Canfuom fod timau ward yn gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol i ddarparu cleifion â gofal unigoledig yn unol â'u hanghenion asesedig.

O sgwrsio gyda'r staff a thrwy arsylwi, gwelsom fod cleifion yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion yn cadarnhau bod y staff yn eu cynorthwyo a'u bod yn darparu gofal pan oedd arnynt ei angen. Gwelsom staff yn annog ac yn cefnogi cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, gwelsom staff yn annog cleifion i gerdded ac yn eu cynorthwyo i eistedd i fyny fel eu bod yn gallu bwyta ac yfed yn annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd jygiau dŵr, cwpanau ac eitemau personol dyddiol yn cael eu gosod o fewn cyrraedd rhwydd i gleifion bob amser fel nad oedd angen iddynt ofyn am gymorth.

Er bod y staff ar bob ward yn disgrifio dull unigoledig o ddarparu gofal i gleifion, nid oedd y sampl o gofnodion a welsom yn adlewyrchu hyn. Gellir gweld ein canfyddiadau yn y cyswllt hwn yn yr adran *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*.

*Safon 6.2 – Hawliau pobl*

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.*

Gwelsom fod timau staff yn darparu gofal mewn ffordd i hyrwyddo ac amddiffyn hawliau cleifion.

Gwelsom staff yn amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion cymaint â phosibl ar bob ward y gwnaethom ymweld â hi wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau i'r ystafelloedd sengl yn cael eu cau ac roedd llenni'n cael eu defnyddio o amgylch gwelyau unigol pan oedd gofal yn cael ei ddarparu. Roedd y staff yn ceisio siarad â llais isel, fel bod sgyrsiau ynghylch iechyd cleifion unigol, a gynhaliwyd y tu ôl i'r llenni preifatrwydd, mor gyfrinachol â phosibl.

Er nad oedd y wardiau'n gweithredu polisi ymweld agored ar unrhyw adeg, dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw gais rhesymol i ymweld y tu allan i amseroedd ymweld yn cael ei wrthod. Roedd y trefniadau hyn yn caniatáu i gleifion gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau, yn ôl eu dymuniadau.

*Safon 6.3 – Gwrando a dysgu o adborth*

*Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau i'r rhai a ddarparodd eu gofal, fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir ac ymdrin â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu yn dilyn adborth ac yn dysgu ohono.*

Roedd y cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ynglŷn â'u profiadau.

Gwelsom fod cardiau sylwadau ar gael yn rhwydd yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy ond nid yn Nhreffynnon. Roedd cleifion a/neu eu cynrychiolwyr yn cwblhau'r rhain cyn eu rhoi mewn blychau post dynodedig. Gwnaethom drafod gyda'r uwch staff sut y gweithredir ar y sylwadau, a dywedwyd wrthym fod y blychau'n cael eu gwagio a bod y sylwadau'n cael eu casglu a'u hanfon at yr uwch reolwyr. Roedd rheolwyr y wardiau'n chwilio am themâu a thueddiadau hefyd. Cafodd trefniadau anffurfiol, lle'r oedd cleifion yn rhoi adborth i uwch staff y ward yn uniongyrchol, eu disgrifio hefyd. Roedd rheolwr Ward Gladstone yn cymryd camau gweithredol i gyflawni hyn trwy gyflwyno dyddiaduron cleifion, lle'r oedd modd nodi sylwadau ynglŷn â gofal a thriniaeth yn ddyddiol trwy gydol arhosiad claf.

Roedd y bwrdd iechyd wedi gwneud trefniadau i ymdrin â phryderon (cwynion) a fynegwyd gan gleifion a/neu eu cynrychiolwyr. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â Gweithio i Wella [1] a dangosodd uwch staff y ward ddealltwriaeth dda o'r broses gywir i'w dilyn. Fodd bynnag, nid oedd y taflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn Ysbyty Treffynnon.

[1] *Gweithio i Wella* – y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru, ac ymateb iddynt.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Gwelsom fod y timau staff ar bob ward yn y ddau ysbyty yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.**

**Roedd offer arbenigol ar gael ac yn cael eu defnyddio i helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a chwympo. Fodd bynnag, gwelsom mai ychydig o le storio oedd ar gael yn Ward Branwen ac roedd hyn yn peri problemau. Roedd pob ward yn lân ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.**

**Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau'n ymwneud ag agweddau ar reoli meddyginiaethau.**

**Gwelsom fod anghenion gofal cleifion wedi cael eu hasesu gan staff a bod staff yn monitro cleifion er mwyn hybu eu lles a'u diogelwch. Er bod y staff yn disgrifio gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf a gofal unigoledig, nid oedd y cofnodion gofal a welsom yn adlewyrchu hyn yn llwyr.**

### Gofal diogel

| |
|---|
| *Safon 2.1 – Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch*<br><br>*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro, ac os oes modd, eu lleihau a'u hatal.* |

Ar y cyfan, roedd trefniadau ar waith i gadw cleifion a staff yn ddiogel yn y ddau fan y gwnaethom ymweld â nhw.

Roedd yn ymddangos bod pob ward yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, ac roedd systemau ar waith i adrodd peryglon amgylcheddol a oedd angen sylw a'u hatgyweirio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y tystysgrifau cynnal a chadw ar gyfer y teclynnau codi yn gyfredol yn y ddau ysbyty. Cafodd y rhain eu harchwilio a chyflwynwyd tystysgrifau cyn i AGIC gwblhau'r arolygiad. Dylai'r bwrdd iechyd wneud trefniadau i sicrhau bod gweithdrefnau cynnal a chadw ar gyfer yr offer yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni a osodwyd.

O arsylwi ar Ward Branwen, roedd yn amlwg bod diffyg lle storio ar gyfer offer. Roedd hyn wedi arwain at annibendod mewn mannau yn y prif goridor a oedd yn cynnwys troliau, offer codi a chario, ac offer monitro cleifion. Roedd hyn yn broblem eithriadol yn ystod y boreau pan oedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cael eu cynorthwyo i ymolchi a gwisgo.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o storio offer yn ddiogel yn Ward Branwen.***

Gwelsom fod y rhan fwyaf o asesiadau risg wedi'u cwblhau yn rhan o'r broses o dderbyn cleifion i'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd diffyg asesiadau galluedd meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym mhob ward y gwnaethom ymweld â hi.[Trafodir hyn ymhellach yn yr adran berthnasol yn yr adroddiad hwn.]Gwnaeth cyfweliadau gyda staff ddangos hefyd y byddent yn cynnal asesiadau cleifion yn rheolaidd ac yn cynllunio gofal i hybu eu diogelwch a'u lles, yn ôl eu cyflyrau.

*Safon 2.2 – Atal briwiau pwyso a niwed i'r meinwe*

*Mae pobl yn cael cymorth i ofalu am eu croen, a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwysedd a niwed i'r meinwe.*

Gwelsom fod y staff wedi asesu cleifion ynghylch eu risg o ddatblygu briwiau pwyso ar eu croen. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y staff yn cymryd camau priodol i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso a niwed i'r meinwe.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal cleifion ym mhob ward y gwnaethom ymweld â hi. Gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi'u cwblhau trwy ddefnyddio dull cydnabyddedig ar gyfer asesu nyrsio. Gwelsom hefyd fod cofnodion monitro wedi'u cwblhau, a oedd yn dangos bod croen cleifion wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd am arwyddion o friwiau pwyso. Roedd offer arbenigol ar gyfer rhyddhau pwysedd ar gael ac yn cael eu defnyddio i helpu i atal cleifion rhag datblygu niwed o ganlyniad i bwysedd.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod cleifion wedi cael eu cynorthwyo neu eu hannog i newid safle'r corff yn rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn cynorthwyo ac yn annog cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'r ddau ymyriad nyrsio hyn yn hysbys ar gyfer helpu i ostwng nifer y cleifion sy'n datblygu briwiau pwyso.

*Safon 2.3 – Atal cwympiadau*

*Mae pobl yn cael asesiad risg cwympo a gwneir pob ymdrech i atal cwympiadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi.*

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion, gwelsom fod cleifion wedi cael eu hasesu am eu risg o gwympo ac roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi'u llunio i helpu i arwain a chyfarwyddo staff o ran yr agwedd hon ar ofal cleifion.

Roedd offer arbenigol megis matiau larwm ar gael ac yn cael eu defnyddio, gyda'r nod o ostwng nifer y cwympiadau cleifion.

*Safon 2.4 – Atal a rheoli heintiau, a dadheintio*

*Mae angen i gamau atal a rheoli heintiau effeithiol fod yn fater i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion bob dydd ym maes gofal iechyd, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael er mwyn i bobl gael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.*

Roedd yr holl wardiau y gwnaethom ymweld â nhw yn lân. Roedd sylwadau'r cleifion a dderbyniwyd yn yr holiaduron AGIC a gwblhawyd yn cadarnhau hyn hefyd. Roedd trefniadau ar waith ym mhob ardal i leihau croes-heintio.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol, megis menig a ffedogau untro, ar gael i'r staff, a'u bod yn eu defnyddio er mwyn lleihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd safleoedd diheintio dwylo, a oedd wedi'u gosod mewn modd strategol ger mynedfeydd/allanfeydd ac o amgylch y wardiau er mwyn i staff ac ymwelwyr eu defnyddio.

Gwelsom fod trefniadau ar waith mewn ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw i ofalu am gleifion ar wahân pe byddai hyn yn angenrheidiol er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom hefyd fod gweithdrefnau wedi'u sefydlu i wirio a glanhau offer er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac i leihau'r risg o ledaenu heintiau. Gwnaeth y staff gadarnhau bod cymorth a chyngor ar gael gan y tîm rheoli heintiau.

Cadarnhaodd y staff glanhau fod digon o offer glanhau ar gael bob amser. Gwnaethom edrych ar rotâu glanhau a gweld tystiolaeth bod y wardiau'n cael eu cynnal a'u cadw i safon foddhaol. Dywedodd y staff yn Ward Branwen wrthym fod tasgau newydd wedi'u cofnodi ar yr amserlen lanhau, ac roedd peth dryswch o ran a oeddent yn dasgau i'r staff wedi'u hyfforddi, neu i'r staff cymorth eu cwblhau. Roedd hyn yn achosi rhai anawsterau a dylai uwch reolwyr sicrhau bod y tasgau newydd hyn yn glir ac yn ddiamwys.

Disgrifiwyd system o gynnal archwiliadau rheolaidd ar gyfer rheoli heintiau yn yr holl wardiau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y rhain yn cael eu cwblhau gyda'r nod o nodi meysydd gwasanaeth i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol pan fo hynny'n angenrheidiol.

*Safon 2.5 – Maeth a hydradu*

*Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion hydradu a maethol, i wella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf.*

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed cleifion wedi cael eu hasesu. Gwelsom staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal cleifion ym mhob ward y gwnaethom ymweld â hi. Gwelsom fod siartiau monitro bwyd yn cael eu defnyddio, pan oedd hynny'n ofynnol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael darpariaeth briodol o faeth a hylif.

Gwelsom fod pwysau cleifion yn cael eu monitro'n rheolaidd i asesu p'un a ydynt yn cael digon o faeth ac i weld pa mor effeithiol yw'r gofal.

Gwnaethom arsylwi ar brydau bwyd yn cael eu gweini amser cinio. Gwelsom staff yn helpu cleifion i eistedd i fyny i fwyta eu cinio ac yn paratoi ar gyfer y pryd bwyd amser cinio yn gyffredinol. Er i ni weld cleifion yn cael cynnig y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta eu cinio yn y ddau ysbyty, roedd yr hancesi gwlyb a ddefnyddiwyd yng Nglannau Dyfrdwy yn hancesi gwlyb cyffredinol ar gyfer tai yn hytrach na rhai gwrthfacteria.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hancesi gwlyb gwrthfacteria i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.***

Er bod system ar gyfer adnabod cleifion sydd angen cymorth gyda bwyta, megis y system jwg/hambwrdd coch, ni welsom honno'n cael ei gweithredu ac, o ganlyniad, gwelsom rai cleifion yn cael trafferth bwyta tra bod pobl eraill yn cael cymorth.

Gwnaethom sylwi hefyd bod y byrddau gwely yng Nglannau Dyfrdwy yn hen ac wedi treulio. Byddai cael byrddau sychu'n lân newydd o fudd yn y wardiau a byddai hynny'n bodloni'r gofynion rheoli heintiau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn a ddefnyddir yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy yn bodloni'r safonau rheoli heintiau.***

Nid oedd y prydau bwyd a welsom yn ymddangos yn arbennig o flasus a chawsom sylwadau cymysg gan gleifion. Dywedodd pob claf wrthym ei fod yn fodlon ar faint y dognau a'r cymorth gan staff. Fodd bynnag, roedd safon y bwyd yn amrywio. Gwelsom fod diet therapiwtig yn cael ei ddarparu ar gyfer y cleifion hynny oedd wedi'u hasesu i nodi bod arnynt angen hynny.

Roedd dŵr yfed ar gael yn rhwydd a gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion a oedd ag angen cymorth gyda'u diodydd. Dywedodd cleifion wrthym fod eu jygiau dŵr yn cael eu newid yn rheolaidd fel bod ganddynt ddŵr ffres i'w yfed.

*Safon 2.6 – Rheoli meddyginiaethau*

*Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir.*

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau'n ymwneud ag agweddau ar reoli meddyginiaethau ym mhob ward.

**Treffynnon**

Nid oedd y siartiau rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau'n gywir, h.y. nid oedd therapi ocsigen wedi'i ragnodi ac ni chofnodwyd a oedd hynny wedi'i ddarparu, ac roedd bylchau yn gyffredinol yn y cofnodion gweinyddol.

Roedd pob cyffur yn cael ei storio'n briodol, ac roedd tymheredd yr oergell wedi'i gofnodi bob dydd er mwyn sicrhau bod y tymheredd storio cyffuriau gorau posibl yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, gwelsom nifer annerbyniol o gyffuriau dros ben yn cael eu storio ar y safle. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr y ward ac, o ganlyniad, roedd y fferyllydd wedi gwneud trefniadau i ddod i'w casglu cyn diwedd yr arolygiad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.***

***Mae angen i reolwr y ward ynghyd â'r gwasanaethau fferyllol sicrhau nad yw stoc fawr o gyffuriau'n cael ei storio yn y ward.***

**Branwen**

Nid oedd y siartiau rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau'n gywir, h.y. nid oedd therapi ocsigen wedi'i ragnodi ac ni chofnodwyd a oedd hwnnw wedi'i ddarparu, ac roedd bylchau yn gyffredinol yn y cofnodion gweinyddol: roedd cyffuriau megis y brechlyn ffliw wedi'u hepgor oherwydd dryswch ynglŷn â ph'un a fyddai nyrsys neu feddygon yn eu rhoi; roedd meddygon yn camsillafu meddyginiaethau wrth ragnodi; ac roedd terfynu meddyginiaethau heb lofnod y clinigwyr a wnaeth y penderfyniad.

Roedd pob cyffur yn cael ei storio'n briodol, er nad oedd tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi bob dydd er mwyn sicrhau bod y tymheredd storio cyffuriau gorau posibl yn cael ei gynnal.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod tymereddau cyffuriau'n cael eu cofnodi bob dydd er mwyn sicrhau'r amodau storio gorau posibl.***

***Rhaid i reolwr y ward herio clinigwyr os nad yw siartiau rhoi cyffuriau'n cael eu cwblhau'n gywir.***

**Gladstone**

Yn debyg i Branwen, gwelsom fod bylchau wrth gwblhau'r siartiau rhoi cyffuriau. Roedd bylchau hefyd ym manylion adnabod cleifion: roedd rhai ohonynt yn cynnwys enwau cleifion, rhai gyda rhif y claf, a rhai'n cynnwys y ddau. Gwelsom achlysuron pan nad oedd y siartiau cyffuriau wedi'u llofnodi a lle nad oedd y cod perthnasol wedi'i gofnodi. O ganlyniad, nid oedd staff yn gwybod a oedd y cyffur wedi'i gymryd neu ei hepgor am reswm penodol.

Fel yn Ward Branwen, gwelsom fod meddyginiaethau wedi'u terfynu heb lofnod y clinigwr a wnaeth y penderfyniad, ac unwaith eto, nid oedd therapi ocsigen wedi'i ragnodi ac ni chofnodwyd a oedd hynny wedi'i ddarparu.

Roedd pob cyffur yn cael ei storio'n briodol, er nad oedd tymheredd yr oergell yn cael ei gofnodi bob dydd er mwyn sicrhau bod y tymheredd storio cyffuriau gorau posibl yn cael ei gynnal.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod tymereddau cyffuriau'n cael eu cofnodi bob dydd er mwyn sicrhau'r amodau storio gorau posibl.***

***Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.***

Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd cofnodion wedi'u cadw o nifer y cyffuriau a gadwyd ac a roddwyd ar y ddwy ward.

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi ym mhob ward a gwelsom arferion diogel er mwyn sicrhau bod y claf cywir yn derbyn y feddyginiaeth gywir ar yr amser cywir.

Mae'r gwelliannau cyffredinol i'w gwneud o ran rheoli meddyginiaeth yn y bwrdd iechyd drwyddo draw yn cynnwys y canlynol:

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi pob therapi cyffuriau gan gynnwys ocsigen.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi'n eglur ac yn gywir.***

| |
|---|
| *Safon 2.7 – Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed*<br><br>*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy’n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg.* |

Er bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol i ddiogelu cleifion sy'n agored i niwed yn y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw, roedd angen gwneud gwelliannau o ran dangos cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.[2]

O edrych ar gofnodion cleifion, canfuom nad oedd unrhyw glaf wedi cael asesiad galluedd meddyliol wrth gael ei dderbyn nac ar unrhyw adeg arall yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty.O drafod ymhellach, gwelwyd bod hyn yn wir am bob un o'r tair ward.**Roedd hyn yn bryder i AGIC, felly anfonwyd llythyr Sicrwydd ar Unwaith ar 21 Tachwedd 2016 yn gofyn am sicrwydd nad oedd hyn yn**

[2] Y fframwaith diogelwch dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae’r fframwaith yn berthnasol lle bydd angen, er eu budd pennaf, i bobl golli eu rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er mwyn derbyn gofal neu driniaeth ac nad ydynt yn meddu ar y gallu i roi caniatâd i'r trefniadau a wnaed ar gyfer eu gofal neu eu triniaeth.

**broblem ar draws y bwrdd iechyd.Gwnaethom dderbyn ymateb boddhaol ar 28 Tachwedd 2016.**

Yn ystod ein cyfnod arolygu, roedd y staff ar Ward Gladstone wedi cynnal yr holl asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a galluedd meddyliol gofynnol ac roedd dogfennau ar gael yn barod i sicrhau bod hyn yn rhan o'r broses dderbyn.Roedd y staff ar Ward Branwen wedi gwneud trefniadau i asesiadau gael eu cynnal ond nid oedd y staff yn Nhreffynnon wedi rhoi sylw i'r asesiadau yn ystod amser ein hymweliadau.

## Gofal effeithiol

*Safon 3.1 – Gofal diogel a chlinigol effeithiol*

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau a bod yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.*

Er i ni ganfod bod offer asesu cleifion cydnabyddedig ar gael ac yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r wardiau y gwnaethom ymweld â nhw, nid oedd y dogfennau'n hwyluso dull unigol o gynllunio gofal ac ychydig o dystiolaeth oedd ar gael o ganlyniadau mesuradwy.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd, gwelsom nifer o ddulliau asesu cleifion wedi'u cwblhau a oedd wedi'u seilio ar ganllawiau arferion gorau a mentrau cenedlaethol.Roedd hyn gyda'r bwriad o helpu staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.Roedd enghreifftiau a welsom yn cynnwys rhai'n ymwneud â gofal y geg, atal briwiau pwyso a maeth.

Gwelwyd enghraifft o arfer nodedig yn Ward Gladstone, lle'r oedd gofal tystiolaeth ffotograffig a gofal wedi'i gynllunio'n dda yn amlwg ar gyfer gofal mannau pwyso.

Er nad oedd gennym unrhyw bryderon sylweddol ynghylch darparu gofal diogel, roedd angen gwneud rhai gwelliannau amgylcheddol, megis:

- Sicrhau nad oedd cynhyrchion glanhau'n cael eu gadael o gwmpas y ward
- Sicrhau bod y cwpwrdd nwyddau glanhau yn cael ei gadw ar glo
- Gwell arwyddion drws/ward, yn benodol rhwng wardiau Ffynnon A a Ffynnon B
- Gwell darpariaeth diogelwch ar Ward Gladstone, yn enwedig yn y nos a phan gynhelir clinigau

- Sicrhau diogelwch priodol yn Nhreffynnon, yn benodol yn ward Ffynnon B.Gwelsom fod camerâu diogelwch yn ward Ffynnon A ond nad oedd rhai yn ward Ffynnon B.
- Gwell system fynediad i'r wardiau yn Nhreffynnon.Ar hyn o bryd, rhaid i gleifion a pherthnasau bwyso cloch alw i gael mynediad.Fodd bynnag, dim ond yn ward Ffynnon A y gellir ateb y gloch alw hon, sy'n golygu yr amharir ar y staff yn gyson, yn enwedig pan nad yw clerc y ward ar gael.
- Gwell system ffôn y tu allan i oriau yn Nhreffynnon.Unwaith eto, mae pob galwad ffôn ar gyfer y ddwy ward yn dod yn uniongyrchol i Ffynnon A yn hytrach na dod trwy i'r system rheoli galwadau ar gyfer gweddill yr ysbyty.O ganlyniad, amharir ar y staff yn gyson er mwyn ateb y ffôn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd edrych ar ffyrdd o wella'r problemau amgylcheddol a diogelwch a nodwyd.***

*Safon 3.2 – Cyfathrebu'n effeithiolWrth gyfathrebu â phobl, mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.*

Dywedodd cleifion wrthym ym mhob ward y gwnaethom ymweld â hi eu bod yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg gyda'r staff.Roedd gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u hymwelwyr wedi'i harddangos yn y ddwy ward yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy.Ni welsom daflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn Nhreffynnon.Roedd yr arwyddion a oedd yn cyfeirio pobl at y wardiau ac o fewn y wardiau yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

Roedd gwybodaeth am y ddau ysbyty ar gael ar wefan y bwrdd iechyd hefyd.

*Safon 3.5 – Cadw cofnodion*

*Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw’n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar gyfer safonau clinigol.*

Yn gyffredinol, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau'n ymwneud â chadw cofnodion (gofal cleifion).Yn benodol, roedd angen iddynt adlewyrchu'r gofal a ddarparwyd i gleifion a dangos bod y gofal wedi'i werthuso.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd o fewn y bwrdd iechyd.Roedd cofnodion ar wahân yn cael eu defnyddio gan y staff nyrsio, y staff meddygol ac aelodau eraill o'r tîm amlddisgyblaethol.

Er i ni ganfod bod asesiadau cynhwysfawr wedi'u cwblhau i bennu anghenion gofal cleifion, gwelsom nad oedd yr asesiadau hyn wedi cael eu defnyddio'n aml i ddatblygu cynlluniau gofal unigoledig.Yn hytrach, roedd ystod o gynlluniau gofal craidd wedi'u rhagargraffu yn cael eu defnyddio a oedd yn disgrifio'r camau gofal cyffredinol.Nid oedd y rhain yn adlewyrchu'n llwyr y gofal unigoledig yr oedd y staff yn ei ddisgrifio fel yr hyn a ddarparwyd.Yn ogystal, nid oedd y cynlluniau gofal yn dangos pa mor effeithiol oedd y gofal.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos anghenion gofal cleifion unigol yn llawn, y gofal y mae'r timau staff yn ei ddarparu, a pha mor effeithiol yw'r gofal a ddarperir.***

Roedd y cofnodion ar gyfer monitro arwyddion hanfodol (megis monitro pwls a phwysedd gwaed) ac archwiliadau croen wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd ac roeddent yn gyfredol.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio’n ddiogel i atal mynediad i bobl heb ganiatâd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Yn gyffredinol, gwelsom fod strwythurau rheoli a llinellau dirprwyo ac adrodd ar waith yn y ddau ysbyty y gwnaethom ymweld â nhw. Fodd bynnag, roedd dulliau rheoli gwahanol iawn ar waith yn y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddwy ward, gwnaethom ofyn bod yr uwch reolwyr yn cefnogi timau'r ward er mwyn sicrhau bod amgylchedd gwaith/rheoli addas yn cael ei gynnal yn y ddwy ward.**

**Gwelsom dimau staff cyfeillgar ond proffesiynol a oedd yn dangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd staff yn gallu disgrifio eu swyddogaethau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.**

**Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu cael hyfforddiant a bod hyn wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn effeithiol.**

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

*Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd*

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*

Ar adeg ein harolygiad, roedd strwythur uwch reolwyr ar waith ym mhob un o'r wardiau y gwnaethom ymweld â nhw a dangoswyd llinellau atebolrwydd ac adrodd.

Roedd yr uwch staff y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio'r llinellau adrodd ac atebolrwydd oedd ar waith o fewn strwythur y bwrdd iechyd, a gwnaethant esbonio'r system archwilio glinigol rheolaidd a oedd yn rhan o'r gweithgarwch monitro ansawdd cyffredinol.Dywedwyd wrthym fod canlyniadau archwiliadau'n cael eu rhoi i'r uwch staff a'u bod yn cael eu rhaeadru i'r staff ar y wardiau fel bod y meysydd i'w gwella'n cael eu canfod ac yn derbyn sylw fel y bo'n briodol.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur AGIC. Trwy gyfrwng ein holiaduron, gwnaethom wahodd y staff i roi sylwadau ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn ymwneud â'u gwaith.

Ar y cyfan, gwnaeth y staff a gwblhaodd holiaduron a'u dychwelyd nodi bod eu rheolwyr uniongyrchol yn gefnogol a'u bod yn rhoi adborth clir ar eu gwaith. Awgrymodd un aelod o'r staff ar Ward Branwen nad oedd y rheolwr yn rhoi adborth clir bob amser.Nododd yr holl staff fod eu rheolwyr yn annog gwaith tîm. Gwnaeth y staff hefyd nodi eu bod yn cael gwneud awgrymiadau er mwyn gwella gwaith eu timau.

Roedd y sylwadau a nodwyd mewn holiaduron a gwblhawyd yn nodi bod staff yn gwybod pwy oedd eu huwch-reolwyr a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Roedd metron dros dro yng Nglannau Dyfrdwy a byddai'n ddoeth i'r bwrdd iechyd recriwtio i swydd barhaol.Byddai hyn yn cynnal sefydlogrwydd yn y tîm uwch-reolwyr ac yn caniatáu prosesau penderfynu mwy cadarn.

Er bod nifer y cleifion y gellir eu lletya yn y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy yn debyg, roedd maint, cynllun y wardiau, a'r trefniadau ar gyfer cymorth clinigol ar gyfer timau'r ward yn amrywio.Er bod Gladstone yn ward hŷn, roedd wedi elwa ar raglen adnewyddu lawn ac roedd bellach yn olau ac awyrog gyda digon o le ynddi.Roedd y gwelyau wedi'u gosod yn y fath ffordd fel eu bod yn cynyddu preifatrwydd cleifion, ond hefyd roedd yn gwneud arsylwi cleifion unigol o'r orsaf nyrsys yn haws.

Ar y llaw arall, roedd Ward Branwen yn dywyll gydag ychydig o weithgareddau ysgogol neu weithgareddau eraill megis teledu.Roedd cynllun y ward yn ei gwneud yn anodd arsylwi cleifion o'r orsaf nyrsys.Ychydig o dystiolaeth oedd ar gael o adsefydlu neu ailalluogi systematig a phersonol a chadarnhawyd hyn gan gleifion y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd dull rheoli'r wardiau'n wahanol iawn yn y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy.Er bod gwahaniaethau, dywedodd yr uwch staff fod gan reolwyr y ddwy ward gyfrifoldebau tebyg o ran maint a chymhlethdod y mannau yr oeddent yn eu rheoli.Roedd llinellau clir o atebolrwydd a chyfrifoldeb yn Ward Gladstone yn ogystal ag arweinyddiaeth arloesol strwythuredig, tra oedd Ward Branwen yn gweithredu dull mwy democrataidd o arwain gyda llinellau atebolrwydd aneglur a ffyrdd llai arloesol o weithio a mwy rheolaidd.

Dywedwyd wrthym am ddatblygu hyrwyddwyr staff yn Ward Gladstone, a oedd yn rhoi cyfrifoldeb a grym i'r staff a oedd yn dymuno arbenigo mewn meysydd megis codi a chario, hyfywedd meinwe a rheoli heintiau.

Yn ward Ffynnon A yn Ysbyty Treffynnon, gwelsom gyfleusterau da ar gyfer cleifion a pherthnasau a all fod arnynt angen aros dros nos.Roedd cegin wedi'i haddasu ar gael er mwyn asesu a chynorthwyo gydag adsefydlu cleifion.Fodd bynnag, ychydig iawn o weithgareddau oedd ar gael i gadw cleifion yn ddiwyd ac i'w hysgogi.Nid oedd unrhyw setiau teledu yn yr ystafelloedd ac ychydig o

ddefnydd o'r ystafell ddydd a'r ystafell fwyta oedd yn cael ei wneud oherwydd cynllun y ward a'r angen am staff ychwanegol i arsylwi ar yr ystafelloedd hyn os oedd cleifion am eu defnyddio.Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth glir gyda dull rheoli strwythuredig ond agored gan reolwr y ward.

**Staff ac adnoddau**

*Safon 7.1 – Y gweithlu*

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr adeg gywir i ddiwallu anghenion.*

Roedd y timau staff a oedd yn gweithio ym mhob ward yn ymddangos yn broffesiynol a gwnaethant ddangos ymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.Roedd yn ymddangos bod nifer a chymysgedd sgiliau'r staff yn briodol ar gyfer diwallu anghenion y cleifion ar bob ward ar adeg ein harolygiad.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt, a sut yr ymdriniwyd â'r anghenion hyn.

Gwnaeth yr holl staff a wnaeth ddychwelyd holiaduron nodi eu bod nhw wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau megis iechyd a diogelwch, diogelwch rhag tân a rheoli heintiau.Nododd y staff eu bod wedi mynychu hyfforddiant perthnasol hefyd a oedd yn berthnasol i'r gofal arbenigol a ddarperir yn eu maes gwaith.Roedd yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn nodi bod staff yn teimlo bod yr hyfforddiant roeddent wedi ei dderbyn wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr y wardiau'n dangos eu bod yn monitro anghenion hyfforddi'r staff.Roedd hyn gyda'r bwriad o wneud trefniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi diweddaru hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w gwaith.Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol ar ffurf e-ddysgu a bod trefniadau ar droed i wella cymorth i'r staff gael mynediad at hyn. Gwelsom fod hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cadarnhaodd rheolwyr ward fod system i gynnal arfarniadau staff blynyddol. Dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd gan reolwr y ward yn Ffynnon A nad oedd yr holl staff wedi derbyn arfarniad o'u gwaith o fewn y flwyddyn ddiwethaf am nad oedd y system wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.Roedd y rhan fwyaf o'r staff ar y ddwy ward yng Nglannau Dyfrdwy wedi derbyn arfarniadau blynyddol neu roedd ganddynt ddyddiadau wedi'u trefnu er mwyn cael arfarniad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i reolwr y ward yn Ffynnon A sicrhau bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol mewn da bryd.***

## 5. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae'n ofynnol i’r bwrdd iechyd gwblhau cynlluniau gwella (Atodiad A, B a C) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai’r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau’r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach.

Mae angen i’r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r bwrdd iechyd roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pryd bydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella’r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015**




Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**
  Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu

cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:**
  Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**
  Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

*Atodiad A*

## Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

## Ysbyty: Ysbyty Treffynnon

## Ward / Adran: Ffynnon A

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| | Nid oes angen gwelliannau. | | | |
| | **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hancesi gwlyb gwrthfacteria i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.<br>Safon 2.5 | Mae hancesi gwlyb bellach wedi cael eu hadolygu yn ôl cyngor gan y tîm atal heintiau. Maent yn cael eu cynnig i gleifion bob amser bwyd. | Metron/Y Tîm Atal Heintiau | Ar unwaith |
| | Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu | Yr holl staff nyrsio wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd siartiau meddyginiaeth cywir. | Metron/Rheolwr y Ward | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cwblhau'n gywir.<br><br>Safon 2.6 | Bydd dull archwilio'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i ardaloedd clinigol i sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. | | Ebrill 2017 |
| | Mae angen i reolwr y ward, ynghyd â'r gwasanaethau fferylliaeth, sicrhau nad yw niferoedd mawr o stoc cyffuriau'n cael eu storio ar y ward.Safon 2.6 | Mae adolygiad wythnosol rhwng y fferyllydd a rheolwr y ward bellach yn cael ei gynnal i fonitro hyn yn agos. Mae'r adnoddau ar gyfer cymorth fferylliaeth hefyd yn cael eu cynyddu i gefnogi'r ward.Bydd hyn yn parhau tan fod sicrwydd parhaus bod hyn yn cael ei reoli'n effeithiol. | Metron<br><br>Prif Fferyllydd | Ebrill 2017 |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi pob therapi cyffuriau gan gynnwys ocsigen. Safon 2.6 | Mae staff wedi cyflwyno proses o wirio taflenni meddyginiaeth ddwywaith i sicrhau bod y ddogfennaeth yn briodol mewn perthynas ag unrhyw hepgoriadau meddygol.<br><br>Mae proses adolygu ac archwilio barhaus i fonitro hyn yn agos a bydd yn cael ei adrodd drwy gyfarfodydd Llywodraethu Ardal. | Rheolwr y Ward | Cwblhawyd Chwefror 2017 |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi'n ddarllenadwy ac yn gywir.<br><br>Safon 2.6 | Mae dull archwilio cytunedig ar gyfer y bwrdd iechyd wedi cael ei roi ar waith i archwilio'r gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch arferion rhagnodi lleol yn fisol. Bydd canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn ôl at staff nyrsio a meddygol ar gyfer gweithredu a gwella.<br><br>**Bydd y dull archwilio hwn yn cael ei rannu** | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio – Ardal y Dwyrain. | Ebrill 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | **Iedled y bwrdd iechyd.** | | |
| | **Sicrwydd ar Unwaith**<br><br>**Yn unol ag egwyddorion gofal diogel y Safonau Iechyd a Gofal, mae'n rhaid i'r holl gleifion yr ystyrir nad ydynt â'r gallu i gydsynio ac y'u rhwystrir rhag gadael y ward neu sydd o dan oruchwyliaeth agos barhaus fod yn destun i asesiad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.**<br><br>**Safon 2.7** | Cafodd yr holl gleifion ar wardiau Ffynnon A a Ffynnon B eu hadolygu o fewn 12 awr o ymweliad AGIC. Gwnaeth cymhwyso'r meini prawf ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ôl cyfarwyddyd AGIC arwain at 11 o gleifion yn cael eu nodi. Cwblhawyd a chyflwynwyd eu gwaith papur ddydd Mercher diwethaf, sef 16 Tachwedd.<br><br>Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl wedi trefnu tri dyddiad hyfforddiant trwy gydol mis Rhagfyr lle byddant yn darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff y wardiau.<br><br>Mae cleifion yn cael eu hadolygu ar gyfer gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod y rowndiau bwrdd dyddiol ac rydym yn defnyddio magned oren ar y byrddau 'cipolwg ar statws cleifion' i ddynodi'r cleifion hynny lle mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith. | Gareth Evans<br><br>Gareth Evans<br><br>Gareth Evans | Cwblhawyd<br><br>20 Rhagfyr 2016<br><br>Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cychwynnol wedi eu cwblhau – monitro parhaus |
| | Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o wella'r problemau amgylcheddol a diogelwch a nodwyd. [Safon 3.1] | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | • Sicrhau nad yw cynhyrchion glanhau'n cael eu gadael o amgylch y ward<br>• Sicrhau bod y cwpwrdd nwyddau glanhau yn cael ei gadw ar glo | Dulliau risg a chofrestr risgiau wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl fannau. Mae rheolwr y ward a'r fetron wedi sicrhau bod yr holl nwyddau glanhau'n cael eu storio'n ddiogel a bod y drws at y nwyddau domestig wedi'i gloi. | Metron/Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | • Gwell arwyddion drws/ward, yn benodol rhwng wardiau Ffynnon A a Ffynnon B | Arwydd laminedig dros dro ar waith. Arwyddion adrannol i'w hadolygu yn unol â Pholisi Ffeindio'r Ffordd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chanllawiau'r GIG. Mae arwyddion sefydlog wedi cael eu harchebu trwy’r Adran Ystadau. | Metron | Chwefror 2017 |
| | • Sicrhau diogelwch priodol yn Nhreffynnon, yn benodol ward Ffynnon B. Gwelsom fod camerâu diogelwch ar Ffynnon A ond nid ar Ffynnon B. | Bydd rheolwr diogelwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhoi cyngor a chymorth i reolwr yr ysbyty i hwyluso asesiad cynhwysfawr o systemau diogelwch y ward a darpariaeth diogelwch. | Rheolwr Ystadau | Diwedd mis Mawrth 2017 |
| | • System mynediad well i'r wardiau yn Nhreffynnon. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i gleifion a pherthnasau wasgu seiniwr i gael mynediad. Fodd bynnag, mae'r seiniwr hwn ond yn gallu cael ei ateb o Ffynnon A, sy'n golygu bod staff yn cael eu torri ar eu traws yn gyson, yn enwedig pan nad yw clerc y ward ar gael.<br>• System ffôn y tu allan i oriau well yn | Bydd mynediad y tu allan i oriau trwy'r system larwm a darpariaeth uwch camerâu diogelwch a geisiwyd trwy'r Adran Ystadau ar 7 Chwefror a'r | Rheolwr Ystadau a Metron | Diwedd mis Mawrth 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Nhreffynnon. Unwaith eto, mae pob galwad ffôn ar gyfer y ddwy ward yn dod yn uniongyrchol i Ffynnon A yn hytrach na dod trwy i'r system rheoli galwadau ar gyfer gweddill yr ysbyty. O ganlyniad, amharir ar y staff yn gyson er mwyn ateb y ffôn. | asesiad cynhwysfawr y soniwyd amdano uchod yn mynd i'r afael â'r broblem hon.<br><br>Bydd y tîm ardal yn trafod y system galw y tu allan i oriau hon gyda'r nod o roi sylw i'r system y tu allan i oriau hon o fewn un mis. | Nyrs Arwain | Ebrill 2017 |
| | Mae'n rhaid i’r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos yn llawn anghenion gofal cleifion unigol, y gofal a ddarperir gan dimau staff, ac effeithiolrwydd y gofal a ddarperir**.** Safon 3.5 | Mae'r safon cydymffurfio'n cael ei monitro'n fisol trwy'r archwiliad ansawdd a diogelwch. Bydd y tîm nyrsio'n sicrhau bod yr archwiliad yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir i gleifion ac yn dangos bod y gofal wedi cael ei werthuso. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Rhaid i reolwr y ward yn Ffynnon A sicrhau bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol mewn da bryd. Safon 7.1 | Mae 85% o'r staff ar Ffynnon A wedi cwblhau'r broses arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad, ac mae prosesau arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad y staff sy'n weddill wedi'u trefnu ar gyfer y chwe wythnos nesaf.<br><br>Mae amserlen wedi'i chynllunio ar gyfer 2017/18 i sicrhau bod yr holl brosesau arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad yn cael eu cwblhau mewn | Rheolwr y Ward | Cwblhawyd mis Rhagfyr 2016. |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | da bryd. | | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):** **Nia Boughton**

**Teitl:** **Pennaeth Nyrsio Cymunedol – Ardal Ganolog**

**Dyddiad:** **08 Chwefror 2017**

*Atodiad B*

## Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

## Ysbyty: Ysbyty Glannau Dyfrdwy

## Ward / Adran: Branwen

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| | Nid oes angen gwelliannau. | | | |
| | **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | |
| | Mae angen i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o storio offer yn ddiogel yn Ward Branwen.<br><br>Safon 2.1 | Mae'r fetron wedi ad-drefnu'r gofod i alluogi storio yn y dyfodol sy'n diwallu rheoliadau iechyd a diogelwch.<br><br>Mae tystysgrifau gwaith cynnal a chadw y teclynnau codi wedi cael eu hadolygu ac mae camau wedi'u cymryd. | Metron | Ar unwaith |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn | Mae'r trefniadau o ran cynnig hancesi gwlyb | Metron/Y Tîm Atal | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cael cynnig hancesi gwlyb gwrthfacteria i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd. Safon 2.5 | bellach wedi cael eu hadolygu, yn unol â chyngor gan y tîm atal heintiau. Maent yn cael eu cynnig i gleifion bob amser bwyd. | Heintiau | |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn a ddefnyddir yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy yn bodloni'r safonau rheoli heintiau. Safon 2.5 | Byrddau gwely newydd ar y gweill.<br>Wedi gosod archeb ar gyfer hambyrddau coch a jygiau. | Metron | Chwefror 2017 |
| | Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. Safon 2.6 | Yr holl staff nyrsio wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd siartiau meddyginiaeth cywir.<br>Bydd dull archwilio'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i fannau clinigol er mwyn sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. | Matron/Rheolwr y Ward/Uwch-ymarferydd Nyrsio | Ar unwaith<br>Ebrill 2017 |
| | Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod tymereddau cyffuriau'n cael eu cofnodi'n ddyddiol er mwyn sicrhau'r amodau storio gorau posibl. Safon 2.6 | Mae rheolwr y ward a'r fetron bellach wedi gweithio'n agos gyda'r tîm nyrsio i sicrhau cydymffurfiad o ran cofnodi gwaith monitro dyddiol. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | Rhaid i reolwr y ward herio clinigwyr os nad yw siartiau gweinyddu cyffuriau'n cael eu cwblhau'n gywir. Safon 2.6 | Mae rheolwr y ward/y nyrs sy'n gyfrifol am y sifft yn gwirio'r siartiau'n ddyddiol a byddant yn herio unrhyw arferion anghywir. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi pob therapi cyffuriau gan gynnwys ocsigen. Safon 2.6 | Cymwyseddau ocsigen wedi'u hatgyfnerthu i'r holl staff trwy'r uwch-ymarferydd nyrsio a rheolwr y ward. | Rheolwr y Ward/Uwch-ymarferydd Nyrsio | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi'n eglur ac yn gywir. Safon 2.6 | Mae dull archwilio cytunedig ar gyfer y bwrdd iechyd wedi cael ei roi ar waith i archwilio'r gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch arferion rhagnodi lleol yn fisol. Bydd canfyddiadau'n cael eu darparu i'r staff nyrsio a meddygol er mwyn cymryd camau a gwneud gwelliannau.<br><br>**Bydd y dull archwilio hwn yn cael ei rannu ledled y bwrdd iechyd.** | Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol – Ardal y Dwyrain | Ebrill 2017 |
| | **Sicrwydd ar Unwaith**<br><br>**Yn unol ag egwyddorion gofal diogel y Safonau Iechyd a Gofal, mae'n rhaid i'r holl gleifion yr ystyrir nad ydynt â'r gallu i gydsynio ac y'u rhwystrir rhag gadael y ward neu sydd o dan oruchwyliaeth agos barhaus fod yn destun i asesiad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.**<br><br>**Safon 2.7** | Cafodd yr holl gleifion yn wardiau Ffynnon A a B eu hadolygu o fewn 12 awr i ymweliad AGIC. Gwnaeth cymhwyso'r meini prawf ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ôl cyfarwyddyd AGIC arwain at 11 o gleifion yn cael eu nodi. Cwblhawyd a chyflwynwyd eu gwaith papur ddydd Mercher diwethaf, sef 16 Tachwedd.<br><br>Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl wedi trefnu tri dyddiad hyfforddiant trwy gydol mis Rhagfyr lle byddant yn darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff y ward.<br><br>Mae cleifion yn cael eu hadolygu ar gyfer | Gareth Evans<br><br>Gareth Evans<br><br>Gareth Evans | Cwblhawyd<br><br>20 Rhagfyr 2016<br><br>Gweithdrefnau Gweithredu Safonol cychwynnol wedi eu cwblhau – |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod y rowndiau bwrdd dyddiol ac rydym yn defnyddio magned oren ar y byrddau 'cipolwg ar statws cleifion' i ddynodi'r cleifion hynny lle mae’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith. | | monitro parhaus |
| | Mae angen i'r bwrdd iechyd edrych ar ffyrdd o wella'r problemau amgylcheddol a diogelwch a nodwyd. [Safon 3.1]<br>• Sicrhau nad yw cynhyrchion glanhau'n cael eu gadael o gwmpas y ward<br>• Sicrhau bod y cwpwrdd nwyddau glanhau yn cael ei gadw ar glo<br>• Gwell darpariaeth diogelwch ar Ward Gladstone, yn enwedig yn y nos a phan gynhelir clinigau<br>. | Dulliau risg a chofrestr risgiau wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl fannau. Mae rheolwr y ward a'r fetron wedi sicrhau bod yr holl nwyddau glanhau'n cael eu storio'n ddiogel a bod y drws at y nwyddau domestig wedi'i gloi.<br>Mae'r fetron wedi gofyn am adolygiad pellach o'r safle gyda'r swyddog iechyd a diogelwch i adolygu diogelwch amgylcheddol Ward Gladstone gyda'r nos. | Metron/Rheolwr y Ward<br>Metron | Ar unwaith<br>Ebrill 2017 |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos anghenion gofal cleifion unigol yn llawn, y gofal y mae'r timau staff yn ei ddarpau, a pha mor effeithiol yw'r gofal a | Mae'r safon cydymffurfio'n cael ei monitro'n fisol trwy'r archwiliad ansawdd a diogelwch. Bydd y tîm nyrsio'n sicrhau bod yr archwiliad yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir i gleifion ac yn dangos bod y gofal wedi cael ei werthuso. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ddarperir. Safon 3.5 | | | |
| | **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Dim angen gwneud unrhyw welliannau. | | | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):** **Renee Evans**

**Teitl:** **.....................................................................................................**

**Dyddiad:** **8 Chwefror 2017**

*Atodiad C*

## Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

## Ysbyty: Ysbyty Glannau Dyfrdwy

## Ward / Adran: Gladstone

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| | Nid oes angen gwelliannau. | | | |
| | **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig hancesi gwlyb gwrthfacteria i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd. Safon 2.5 | Mae hancesi gwlyb bellach wedi cael eu hadolygu yn ôl cyngor gan y tîm atal heintiau. Maent yn cael eu cynnig i gleifion bob amser bwyd. | Metron/Y Tîm Atal Heintiau | Ar unwaith |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn a ddefnyddir yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy yn | Byrddau gwely newydd ar y gweill.<br>Wedi gosod archeb ar gyfer hambyrddau coch a | Metron | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | bodloni'r safonau rheoli heintiau. Safon 2.5 | jygiau. | | |
| | Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod tymereddau cyffuriau'n cael eu cofnodi bob dydd er mwyn sicrhau'r amodau storio gorau posibl. Safon 2.6 | Mae rheolwr y ward a'r fetron bellach wedi gweithio'n agos gyda'r tîm nyrsio i sicrhau cydymffurfiad o ran cofnodi gwaith monitro dyddiol. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir*.* Safon 2.6 | Yr holl staff nyrsio wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd siartiau meddyginiaeth cywir.<br>Bydd dull archwilio'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i ardaloedd clinigol i sicrhau bod siartiau gweinyddu meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir. | Metron/Rheolwr y Ward/Uwch-ymarferydd Nyrsio | Ar unwaith<br><br>Ebrill 2017 |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi pob therapi cyffuriau gan gynnwys ocsigen.<br>Safon 2.6 | Cymwyseddau ocsigen wedi'u hatgyfnerthu i'r holl staff trwy'r uwch-ymarferydd nyrsio a rheolwr y ward. | Rheolwr y Ward/Uwch-ymarferydd Nyrsio | Ar unwaith |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod clinigwyr yn rhagnodi'n eglur ac yn gywir.<br>Safon 2.6 | Mae dull archwilio cytunedig ar gyfer y bwrdd iechyd wedi cael ei roi ar waith i archwilio'r gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch arferion rhagnodi lleol yn fisol. Bydd canfyddiadau'n cael eu darparu i'r staff nyrsio a meddygol er mwyn cymryd camau a gwneud gwelliannau.<br>**Bydd y dull archwilio hwn yn cael ei rannu** | Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol – Ardal y Dwyrain | Ebrill 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | **Iedled y bwrdd iechyd.** | | |
| | **Sicrwydd ar Unwaith**<br><br>**Yn unol ag egwyddorion gofal diogel y Safonau Iechyd a Gofal, mae'n rhaid i'r holl gleifion yr ystyrir nad ydynt â'r gallu i gydsynio ac y'u rhwystrir rhag gadael y ward neu sydd o dan oruchwyliaeth agos barhaus fod yn destun i asesiad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.**<br><br>**Safon 2.7** | Cafodd yr holl gleifion yn wardiau Ffynnon A a B eu hadolygu o fewn 12 awr i ymweliad AGIC. Gwnaeth cymhwyso'r meini prawf ar gyfer y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ôl cyfarwyddyd AGIC arwain at 11 o gleifion yn cael eu nodi. Cwblhawyd a chyflwynwyd eu gwaith papur ddydd Mercher diwethaf, sef 16 Tachwedd.<br><br>Mae tîm y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid o fewn y gwasanaethau iechyd meddwl wedi trefnu tri dyddiad hyfforddiant trwy gydol mis Rhagfyr lle byddant yn darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff y wardiau.<br><br>Mae cleifion yn cael eu hadolygu ar gyfer gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod y rowndiau bwrdd dyddiol ac rydym yn defnyddio magned oren ar y byrddau 'cipolwg ar statws cleifion' i ddynodi'r cleifion hynny lle mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar waith. | Gareth Evans<br><br>Gareth Evans<br><br>Gareth Evans | Cwblhawyd<br><br>20 Rhagfyr 2016<br><br>Gweithdrefna u Gweithredu Safonol cychwynnol wedi eu cwblhau – monitro parhaus |
| | Mae angen i'r bwrdd iechyd edrych ar ffyrdd o wella'r problemau amgylcheddol a diogelwch a nodwyd. [Safon 3'1] | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | • Sicrhau nad yw cynhyrchion glanhau'n cael eu gadael o gwmpas y ward<br>• Sicrhau bod y cwpwrdd nwyddau glanhau'n cael ei gadw ar glo<br>• Gwell darpariaeth diogelwch ar Ward Gladstone, yn enwedig yn y nos a phan gynhelir clinigau | Dulliau risg a chofrestr risgiau wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl fannau. Mae rheolwr y ward a'r fetron wedi sicrhau bod yr holl nwyddau glanhau'n cael eu storio'n ddiogel a bod y drws at y nwyddau domestig wedi'i gloi.<br><br>Mae'r fetron wedi gofyn am adolygiad pellach o'r safle gyda'r swyddog iechyd a diogelwch i adolygu diogelwch amgylcheddol Ward Gladstone gyda'r nos. | Metron/Rheolwr y Ward<br><br>Metron | Ar unwaith<br><br>Ebrill 2017 |
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion gofal cleifion yn dangos anghenion gofal cleifion unigol yn llawn, y gofal y mae'r timau staff yn ei ddarpau, a pha mor effeithiol yw'r gofal a ddarperir. Safon 3.5 | Mae'r safon cydymffurfio'n cael ei monitro'n fisol trwy'r archwiliad ansawdd a diogelwch. Bydd y tîm nyrsio'n sicrhau bod yr archwiliad yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir i gleifion ac yn dangos bod y gofal wedi cael ei werthuso. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith |
| | **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| | Nid oes angen gwelliannau. | | | |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Renee Evans** |
| **Teitl:** | **.......................................................................................** |
| **Dyddiad:** | **8 Chwefror 2017** |